

Ysgol I.D. Hooson  
Heol Caradog  
Rhosllannerchrugog  
LL14 2DX  
Ffôn: 01978 832950  
Ffacs: 01978 832955  
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



---

## YSGOL I.D. HOOSON

---

23.3.21

Annwyl Rieni / Ofalwyr,

**Disgwyliadau pan ar gampws yr ysgol** - Diolch i bawb sydd wedi cydymffurfio gyda'r trefniadau amrywiol sydd wedi ei chyflwyno yn ystod cyfnod y pandemig. Bydd trefniadau amserlen ddyddiol bresennol yn parhau ar ôl y Pasg ynghyd a disgwyliadau eraill sydd yn cynnwys gwisgo mygydau ar gampws yr ysgol, un rhiant/ofalwr i ddod a gollwng plentyn yn yr ysgol, peidio â chyrraedd safle'r ysgol dim mwy na 5 munud cyn amser cychwyn/gorffen y plentyn, a pharhau i gadw at reolau ymbellhau cymdeithasol. Mae'n hanfodol fod pawb yn cadw at y trefniadau hyn er lles ac iechyd a diogelwch personol eraill.

Yn ogystal â'r disgwyliadau uchod, mae disgwyliad i bob rhiant/ofalwr ymddwyn mewn ffordd barchus pan ar safle'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys yn y maes parcio ac ar y buarth. Mae plant, staff a rhieni/ofalwyr yn bresennol ar y campws yn ystod amser prysur y bore a diwedd y pwn, ac nid yw yn dderbyniol i unrhyw un, boed yn blentyn neu oedolyn, glywed na gweld ymddygiad nag iaith annerbyniol yn cael ei ddefnyddio ar y campws. Os oes anghytundeb ynglŷn ag unrhyw fater gan unrhyw riant/ofalwr, yna dylech symud oddi ar safle'r ysgol i leoliad ble y gallwch drafod y mater mewn ffordd synhwyrol ac mewn lleoliad preifat, ble nad yw'r plant yn gorfod bod yn bresennol, a ble nad yw yn amharu ar enw da yr ysgol.

**Diwrnod Trwyn Coch** - Diolch i bawb oedd wedi cefnogi ymgyrch diwrnod trwyn coch ar ddydd Gwener Mawrth 20fed, Llwyddodd yr ysgol i godi £216 tuag at yr ymgyrch. Diolch.

Hoffwn ddiolch i'r plant am ei hymagwedd wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae wedi bod yn gyfnod pryderus ac anodd i amryw o blant, ond maent i'w canmol am y ffordd y maent wedi ymgartrefu yn ôl i fywyd ysgol dros yr wythnosau diwethaf. **Dydd Iau Mawrth y 25ain fydd diwrnod olaf y tymor** i'r plant. Bydd yr ysgol yn **ail-agor i'r plant ar ddydd Mawrth Ebrill y 13eg** gan fod dydd Llun y 12fed yn ddiwrnod hyfforddiant. Hoffwn ddymuno yn dda i chi gyd dros y Pasg, ac edrychwn ymlaen i groesawu'r plant yn ôl i'r ysgol ar gyfer tymor yr haf ar ôl y Pasg. Mawr obeithiaf y byddwch i gyd yn mwynhau Pasg diogel ac y gallwn edrych ymlaen gyda'n gilydd am sefyllfa well ar ôl y Pasg.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel gan gymryd gofal gyda'ch teuluoedd.

Yr eiddoch yn gywir,

Rhodri Jones  
Pennaeth